**<u>Pwyllgor Diwylliant CC 12-02(P.3)</u>**

Dyddiad: 19 Mehefin 2002

Amser: 9.00am - 12.30pm

Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 1, Cynulliad Cenedlaethol Cymru

## Cyngor Celfyddydau Cymru/Arts Council of Wales

## Adroddiad i'r Pwyllgor Diwylliant

## 19eg Mehefin 2002

**CYFLWYNIAD**

1. Mae'r Cyngor wedi gwneud cynnydd sylweddol ar y gwaith o weithredu'r broses drawsnewid y cytunwyd arni, yn ogystal â lansio mentrau datblygu newydd pwysig sy'n ymwneud â'r celfyddydau. Mae'r prif benawdau'n cynnwys:

- Strwythur staff newydd wedi'i ymgorffori
- Datganoli i swyddfeydd lleol
- Cyflwynwyd Cynlluniau Grant newydd
- Strategaeth Gyfathrebu newydd
- Ymgynghori sylweddol ar y Strategaeth Bum Mlynedd
- Datblygu Theatr yr Iaith Gymraeg
- Canolfan y Mileniwm Cymru, Canolfan Celfyddydau Casnewydd, Theatr Mwldan ar y safle

Mae'r cynnydd o 23% yn yr arian refeniw gan Lywodraeth Cynulliad Cymru wedi bod yn hwb enfawr i'r celfyddydau yng Nghymru. Ceir ymdeimlad newydd o obaith a dawn

greadigol. Mae lleoliadau newydd ar gyfer y celfyddydau yn cael eu datblygu ledled Cymru gyda chymorth grantiau'r Loteri gan CCC gan gynnwys Theatr Mwldan, Canolfan Celfyddydau Casnewydd a Chanolfan Mileniwm Cymru a gwnaethpwyd llawer o gynnydd gyda chynigion yn Wrecsam a Chaernarfon.

Mae'r hwb ariannol newydd i gyrff a ariennir gan refeniw wedi helpu i sicrhau dyfodol OCC a Clwyd Theatr Cymru, yn ogystal â chywiro effaith nifer o flynyddoedd o ariannu gwastad ar gyfer 100+ o gleientiaid refeniw CCC. Mae llawer o waith i'w wneud eto gan bod gan 13% o gleientiaid CCC ddiffygion sylweddol a bydd angen refeniw pellach arnynt.

Mae CCC wedi sicrhau bod £1 miliwn ar gael er mwyn ad-dalu dyledion fel rhan o raglen sefydlogi a ddatblygir yn yr hydref.

Yn ogystal â chynorthwyo cleientiaid refeniw presennol, mae CCC wedi llwyddo i ychwanegu 5 sefydliad celfyddyd cymunedol a oedd gynt dim ond yn derbyn arian prosiect.

**Y Canolbarth a Gorllewin Cymru**

Arts Connection

CARAD

**Gogledd Cymru**

BROLI Cymraeg

**De Cymru**

Dance Blast

Valleys Kids Artworks

Mae gan y sefydliadau celfyddyd cymunedol hyn arian diogel er mwyn parhau â'u gwaith ac mae'r buddsoddiad yn adlewyrchu ymrwymiad CCC i'r sector.

## AILSTRWYTHURO

1. Cyflwynwyd y strwythur staffio newydd ddechrau mis Chwefror. Mae uwch dîm rheoli newydd yn rhedeg CCC erbyn hyn sy'n cynnwys rheolwyr y 3 swyddfa leol ym Mae

Colwyn, Caerfyrddin a'r Swyddfa yn Ne Cymru a leolir yng Nghaerdydd ar hyn o bryd.

Mae staff wedi cychwyn ar eu swyddi dan y trefniadau a ddatganolwyd a'u dyletswyddau newydd. Enwebwyd swyddogion arwain ar gyfer pob cleient ac mae timau rhanbarthol wedi nodi'r meysydd gorchwyl ar gyfer eu Swyddogion Datblygu'r Celfyddydau sy'n cynnwys mathau o gelfyddyd a materion trawsbynciol megis plant a phobl ifanc, cyfle cyfartal ac amrywiaeth diwylliannol.

**CYNLLUNIAU GRANT NEWYDD**

2. Ymgorfforwyd naw Cynllun Grant newydd ar 1af Ebrill yn unol â'r targed. Mae'r cynlluniau hyn yn cyfuno cynlluniau Loteri a Grant mewn Cymorth, yr oedd 46 ohonynt yn flaenorol. Tra bod nawdd yn parhau I gael ei weinyddu yn ôl y rheolau ar wahân ar gyfer Loteri a Grant mewn Cymorth, mae’r cynlluniau cyfunedig yn llai niferus, mwy syml ac yn haws i’w deall.

Sef:

Datblygu Proffesiynol: Hyfforddiant

Datblygu proffesiynol: 'Gwobrau 'Cymru Creadigol'

Datblygu Cynulleidfa a Chynhyrchu

Datblygu Cynulleidfa a Chyflwyno

Datblygu Gallu a'r Gronfa Ddatblygu

Cymryd Rhan a Chelfyddyd yn y Gymuned

Amrywiaeth Ddiwylliannol Mehefin 2002 – Mawrth 2004

Plant, Pobl Ifanc a'r Celfyddydau

Cyhoeddiadau

Amgaewyd yr arweiniad i'r cynlluniau er gwybodaeth ac mae'n llawer symlach a haws i'w ddefnyddio na'r hen drefniadau. Mae'r Cynlluniau yn parhau i gael llawer iawn o geisiadau sy'n adlewyrchu gallu creadigol aruthrol Cymru, ac mae'r gostyngiad yn

incwm y Loteri wedi cael effaith arnynt.

Yn yr un modd ag y gwneir gyda phob agwedd o'r CCC newydd, caiff y Cynlluniau eu monitro'n ofalus a'u newid yng ngoleuni profiadau ac yn dilyn ymateb ymgeiswyr.

## STRATEGAETH GYFATHREBU

3. Mae CCC wedi bod yn gweithio'n galed i ailffurfio cyswllt â'r sector a chyda phrif bartneriaid. Mae Cronfa Ddata newydd Celfyddydau Cymru, sy'n cael ei chynnwys ar wefan Celfyddydau Cymru yn rhan o'r datblygiad hwn. Mae hon yn disodli hen wefan CCC oedd yn adnabyddus am beidio â chynnwys unrhyw gelf o gwbl! Bydd y wefan a lansiwyd yn Eisteddfod yr Urdd yn tyfu gan gynnwys cronfa ddata gynhwysfawr o artistiaid, sefydliadau celf, lleoliadau a digwyddiadau. Mae'n un o'r targedau cyntaf a osodwyd yn Creative Future: Cymru Creadigol i gael ei gyflawni.

   Mae agweddau eraill o'r strategaeth gyfathrebu yn cynnwys dialog helaeth a ddatblygwyd gydag artistiaid a sefydliadau celfyddyd, yn ogystal â phrif bartneriaid eraill gan gynnwys Llywodraeth Cynulliad Cymru, awdurdodau lleol a chyrff cyhoeddus eraill megis Bwrdd Croeso Cymru, Bwrdd yr Iaith Gymraeg, ELWa, Awdurdod Datblygu Cymru, Amgueddfa ac Orielau Celf Cenedlaethol Cymru, Llyfrgell Genedlaethol Cymru a chyrff cydlynol allweddol yn y sector gwirfoddol a'r sector proffesiynol. Caiff y partneriaethau hyn eu datblygu a'u cynnal yng nghyd-destun Cymru'n Creu, gan ganolbwyntio ar gamau gweithredu a chytuno ar ganlyniadau ar y cyd a'u cyflwyno.

## STRATEGAETH BUM MLYNEDD

4. Yn dilyn ymgynghoriad helaeth iawn a gynhaliwyd yn ystod y gaeaf, datblygwyd Strategaeth Ddrafft 5 Mlynedd newydd ac unwaith eto, mae'n destun ymgynghoriad pwysig.

   Mae'r strategaeth yn cynnwys targedau er mwyn diwygio’r celfyddydau yng Nghymru. Mae'n disgrifio yn eglur sut y bydd CCC yn gweithio tuag at gyflawni’r weledigaeth a amlinellwyd yn Cymru Greadigol.

   Mae’r Strategaeth yn croesawu pob agwedd o'r celfyddydau ac yn cydnabod manteision rhagoriaeth, yn ogystal â'r cyfraniad i agweddau allweddol eraill o ddatblygu Cymru fodern uchelgeisiol gan gynnwys hyrwyddo cynhwysiad cymdeithasol a datblygu economaidd, meithrin yr Iaith Gymraeg a hyrwyddo delwedd Cymru dramor.

Mae CCC yn gobeithio y bydd y Pwyllgor Diwylliant yn cael cyfle i ymateb i'r drafft a'r cynigion datblygu dros y pum mlynedd nesaf, yn y cyfarfod.

## CWMNI THEATR CENEDLAETHOL YR IAITH GYMRAEG

6. Gwnaethpwyd cynnydd sylweddol ers cyhoeddi datblygiad y cwmni. Neilltuwyd £250,000. Gofynnwyd am geisiadau i gynnal dau gynhyrchiad pwysig newydd a chafwyd ymateb ardderchog. Disgwylir y gwneir penderfyniad ar y dyfarniadau yng nghyfarfod y Cyngor ar 12fed Gorffennaf. Diben y cynhyrchiadau hyn yw sicrhau bod gwaith o ansawdd uchel ar raddfa fawr ar gael trwy gyfwng y Gymraeg yn ystod cyfnod datblygu'r cwmni.

   Yn y cyfamser, mae grðp llywio, sy'n cynnwys aelodau o bob rhan o'r gymuned ddrama yng Nghymru, yn gweithio tuag at sefydlu'r cwmni newydd. Mae wedi cytuno ar weledigaeth ar gyfer y cwmni, y mae copi ohono ynghlwm, ac ar hyn o bryd, mae'n cyflawni'r tasgau angenrheidiol er mwyn creu'r cwmni'n ffurfiol fel endid cyfreithiol.

   Ar yr adeg hon, defnyddir trefn ddethol, agored a thryloyw sy'n seiliedig ar egwyddorion Nolan er mwyn ethol y Cadeirydd newydd a'r bwrdd.

   Ar ôl sefydlu'r cwmni newydd, bydd yn penodi cyfarwyddwr artistig ac yn dewis ei leoliad.

   **CASGLIADAU**

7. Mae wedi bod yn gyfnod prysur iawn i CCC ond bu'n gyfnod cadarnhaol a chynhyrchiol. Bydd nifer o sialensau newydd yn codi yn ystod y misoedd a'r blynyddoedd nesaf ond mae sail gadarn yn bodoli bellach er mwyn delio â nhw ac ymdeimlad cadarn o bwrpas.

   Mae'r potensial yn bodoli bellach i sicrhau datblygu doniau creadigol a chymryd rhan yn y celfyddydau, ac mae Cymru'n iawn i chwennych hyn.

**CYNGOR CELFYDDYDAU CYMRU**

**Mai 2002**